## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 21 Hydref 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor y Cynghorydd Sir. .

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones.

**2. Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol gan :
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn eitem 4.2 - Neuadd y Pentref a
Cyng. Sir K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 16 Medi 2025 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. Sharon Parry, eilio Cyng. G.O. Jones).

**4. Materion sy'n codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Byddai'r clerc yn trefnu i'r tŷ chwarae gael ei addasu i wella safonau diogelwch. Dywedwyd fod Craig Redmond wedi tynnu'r coed ynn oedd wedi marw. Roedd cais wedi'i wneud am rwystrau i atal plant rhag rhedeg yn syth i'r ffordd wrth 31-33 Ystâd Treifan, ond nodwyd hefyd y gallai hyn effeithio ar y ceir yn parcio yn y cyffiniau yna. Wedi chwilio a mesur, yn anffodus nid oedd lle i osod rhwyd pêl-droed ar y maes chwarae heb beryglu diogelwch plant yn defnyddio'r offer chwarae.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd Craig Redmond wedi torri'r goeden Onnen oedd wedi marw yn yr ardd. Dywedwyd fod y gwaith ar y system wresogi newydd wedi'i gwblhau. Roedd y trydanwr wedi atgyweirio'r goleuadau yn y toiledau a'r coridor cefn ac roedd y blwch allweddi newydd a'r blwch post wedi'u gosod. Cytunwyd i drin y ffenestr yn ystafell y boeler ac i uwchraddio'r clo i'w wneud yn fwy diogel.

4.3 Unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cofnodion - dim.

**5. Cynllunio**

5.1 Penderfyniad: FPL/2025/186 Bryn Ednyfed, Caergeiliog - Caniatâd.

**6. Materion Ariannol**
Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.9.2025 a 30.9.8. 2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Medi.) | £364.89 | Shaun Wharton | £200 |
| C. Redmond | £400 | Môn Fire Ltd. | £288 |
| Dwr Cymru | £97.08 | G. Griffith | £659.53 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft

7.2 Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Un Llais Cymru - Ynys Môn

7.3 Gorchymyn Traffig Arfaethedig

7.4 Cyngor ac adnoddau polisi (Un Llais Cymru)

7.5 Datganiad Ysgrifenedig: Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol

**8. Hyfforddiant**

Roedd dau aelod a'r clerc wedi mynychu Gweminarau Bioamrywiaeth yn ddiweddar, roedd Un Llais Cymru yn cynnig nifer o sesiynau hyfforddi bob mis ac anogwyd yr aelodau i gymryd rhan.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Gwilym O. Jones:
Wedi canfod nad oedd y golofn goleuadau oedd yn gwyro wrth yr hen eglwys yng Nghaergeiliog yn beryglus. Dywedodd fod CSYM wedi trefnu gyda Scottish Power i newid y colofnau goleuadau stryd yn y pentref yn ystod yr wythnos yn cychwyn 15fed Rhagfyr 2025 a'r bwriad oedd sythu'r golofn ar yr un pryd.

9.2 Cyng. Sharon Parry
Gofynnodd a ellid atgyweirio'r rheiliau o flaen y lloches fws wrth yr eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn a hefyd am gael glanhau'r llochesi.

9.3 Cyng. Dyfed Williams:
Gofynnodd am ddiweddariad ar y gwaith cynnal ar Lon Cymyran. Dywedodd Cyng. Gwilym Jones fod gan CSYM hyn mewn llaw a bod Hogan Ltd. i fod i ddechrau gweithio yno ymhen 2-3 mis.

9.4 Cyng. William Victor Owen:
Yn gofyn am y problemau parcio ar Lon Minffordd. Dywedwyd fod y Cyngor Sir wedi cael ymholiad am y posibilrwydd o greu mannau parcio ar eu cyfer ond yn anffodus nid oedd hyn yn opsiwn. Anogwyd cynghorwyr i dynnu lluniau o unrhyw gerbyd oedd wedi ei barcio anghyfreithlon neu oedd yn niwsans er mwyn cymryd camau gorfodi.

Dywedodd fodd tair lamp olau newydd wedi eu gosod ar Lon Minffordd.

**10. Cyfarfod Nesaf - 18 Tachwedd 2025**